



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cynllun Gweithredu 2014/15



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Trosolwg

Mae Cynllun Gweithredu'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2014/15 yn manylu ar y prif weithgareddau a ddarperir erbyn Mawrth 2015, wedi eu gosod yn erbyn ein Pum Blaenoriaeth Strategol ar gyfer 2014-17. Mae'n gynllun heriol a chyffrous, sy'n llawn cyfleoedd i gynyddu ein gwerth cymdeithasol, economaidd a diwylliannol trwy arloesi a chydweithio.

Mae'r Cynllun yn anelu tuag at alluogi'r Llyfrgell nid yn unig i barhau i ddiogelu treftadaeth ddogfennol gyffyrddadwy'r genedl yn y casgliadau, ond hefyd i wneud mwy o ddefnydd o dechnolegau digidol i ryddhau cynnwys newydd ar-lein a sicrhau mwy o fynediad at adnoddau. Tra byddwn yn parhau'n driw i'n hamcanion gwreiddiol, mae'r Cynllun Strategol yn ymdrin â materion allweddol yn ymwneud ag ehangu hygyrchedd ac ymgysylltu cyhoeddus, gwella ei sylfaen sgiliau a'i rôl o arweinyddiaeth mewn cadwraeth a llythrennedd gwybodaeth.

Mae'r Cynllun yn uchelgeisiol a realistig o ystyried y cyfyngiadau presennol ar wariant cyhoeddus - amodau yr ydym yn cydnabod sy'n debygol o barhau yn y tymor canolig. Rydym yn cydnabod yn llawn ein hangen i weithio o fewn cyllidebau gweithredol a chyfalaf llai. Byddwn yn sicrhau arbedion a dargedir i gyfateb i'r gostyngiad o 2% yn ein Grant Cymorth.

Ein Cenhadaeth

Casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg

Ein Gweledigaeth

Darparu gwybodaeth i bawb

Ein gwerthoedd

Byddwn yn darparu gwasanaeth clodwiw i bobl Cymru; byddwn yn cael ein hadnabod ar draws y byd fel cadwrfa archifol a digidol ddibynadwy, byddwn yn effeithiol ac effeithlon ym mhopeth a wnawn, byddwn yn atebol i'n defnyddwyr a'n rheoleiddwyr, byddwn yn parchu amrywedd a bydd ein dylanwad ar unigolion ac ar gymdeithas yn fawr.

GWEITHREDU EIN STRATEGAETH

Cynllun Gweithredu 2014/15

Dyma'r prif bwyntiau ar gyfer 2014/15; yn erbyn y rhain y byddwn yn adrodd ar gynnydd a chyflawniadau yn ei Hadolygiad Blynyddol.

BLAENORIAETH STRATEGOL 1: Mynediad

Galluogi mynediad at ein casgliadau craidd

- Hwyluso mynediad a defnydd, ac ail-bwrpasu casgliadau
- Ehangu ein presenoldeb ar draws Cymru
- Datblygu a diogelu casgliadau i hwyluso mynediad
- Cynnal, datblygu a darparu mynediad at y casgliadau cenedlaethol yn cynnwys deunydd adnau cyfreithiol
- Annog a chasglu adborth gan ddefnyddwyr
- Cynnal a chefnogi ymchwil sy'n cynyddu effaith y casgliadau

BLAENORIAETH STRATEGOL 2: Arbenigedd

Cynnal a defnyddio arbenigedd

- Rhannu sgiliau a gwybodaeth
- Arwain trwy osod safonau arfer da
- Datblygu Prosiect Gwasanaeth Cadwedigaeth Ddigidol ar gyfer Treftadaeth Ddogfennol Cymru
- Meithrin a diogelu sgiliau a chymwyseddau

BLAENORIAETH STRATEGOL 3: Cydweithio

Annog cydweithio er budd pobl Cymru

- Ymgysylltu â defnyddwyr a grwpiau perthynol
- Cydweithio â'r sector preifat
- Datblygu Rhaglen Partneriaeth Gymunedol gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus
- Cydweithio â chyrrff eraill yng Nghymru a thu hwnt
- Cyfrannu tuag at ymchwil rhyngwladol
- Rôl arweiniol yn y sector diwylliant a threftadaeth

BLAENORIAETH STRATEGOL 4: Cynaliadwyedd

Gosod cynaliadwyedd wrth graidd ein cynllunio

- Edrych ar ffrydiau incwm newydd
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus
- Mesur a monitro effaith a gwerth y Llyfrgell
- Hyrwyddo, datblygu a chynnal effeithlonrwydd amgylcheddol

BLAENORIAETH STRATEGOL 5: Blaengaredd

Arwain a chydweithio ar gyfer cynllunio a datblygu'r isadeiledd gwybodaeth cenedlaethol sy'n raddol dyfu yng Nghymru

- Arwain trafodaeth genedlaethol ar sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru
- Arwain a chydweithio wrth ddatblygu sylfaen gwybodaeth Cymru
- Bod yn flaengar wrth ddatblygu safleoedd masnachol

Dyma'r prif bwyntiau ar gyfer 2014/15; yn erbyn y rhain y byddwn yn adrodd ar gynnydd a chyflawniadau yn ei Hadolygiad Blynyddol. Maent wedi eu rhannu'n dri chategori:

- gwasanaethau sy'n parhau
- datblygiadau
- swyddogaethau cefnogol

Gwasanaethau sy'n parhau

Mae'r adran hon yn tanlinellu rhwymedigaethau craidd y Llyfrgell o dan ein Siarter Frenhinol, ac o dan ddeddfwriaeth berthnasol y Deyrnas Unedig.

Gweithgareddau craidd	
3.2.1	Llunio, disgrifio a rheoli casgliad mor gyflawn â phosibl, ym mhob cyfrwng, o ddeunyddiau cyhoeddedig ac unigryw nas cyhoeddwyd sy'n ymwneud â Chymru a'n cymdogion, gan gynnwys cyhoeddiadau printiedig ac electronig, deunydd archifol, graffig, cartograffig a sain a delweddau symudol.
3.2.2	Cynnal (trwy adnau cyfreithiol a phrynu) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau cyhoeddedig yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, ac o ddeunydd ymchwil o wledydd eraill.
3.2.3	Parhau i weithredu Rheoliadau Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003 newydd ar drefn adnewo cyfreithiol deunyddiau amhrintiedig (electronig), mewn partneriaeth â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill. Cynnal a datblygu'r isadeiledd technegol angenrheidiol, systemau, polisïau, gweithdrefnau a llif gwaith i weithredu'r Rheoliadau yn y Llyfrgell a pharhau i gasglu deunyddiau perthnasol. Parhau i gydweithio gyda chyhoeddwr a chyflenwr cyhoeddiadau electronig, yn arbennig yng Nghymru. Darparu mynediad cyhoeddus at ddeunydd adnau cyfreithiol amhrintiedig (electronig) yn ystafelloedd darllen y Llyfrgell.
3.2.4	Parhau i Weithredu'r Polisi a'r Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau (2010) i gynnwys: cysylltu metadata'r Llyfrgell er enghraifft, â COPAC, OCLC WorldCat, Europeana, Casgliad y Werin; awtomeiddio metadata er mwyn gallu dod o hyd iddynt yn hawdd trwy beiriannau chwilio fel Google: symleiddio prosesau casglu a

	<p>chreu metadata a'u gwneud yn llai costus; paratoi cynllun i reoli olgioniadau analog a digidol.</p> <p>Parhau i weithredu i safon RDA yn unol â'r amserlen a rennir gyda'r Llyfrgelloedd adnau cyfreithiol. Cyfrannu cofnodion llyfryddol sy'n cydymffurfio â RDA at y Cynllun Catalogio a Rennir a chofnodion yr awdurdod i NACO.</p>
3.2.5	<p>Cynnal defnyddioldeb y casgliadau digidol ac analog trwy raglen o weithgareddau cadwraeth a chadwedigaeth, a fydd yn sicrhau mynediad parhaol.</p> <p>Parhau i sicrhau bod amodau amgylcheddol, storio a thrafod yn cael eu bodloni a bod hynny yn ei dro yn fodd i gadw deunyddiau, a thrwy ymyrraeth, diogelu deunyddiau trwy eu hatal rhag dirywio neu drwsio difrod.</p>
3.2.6	<p>Datblygu swyddogaethau'r System Rheoli Gwybodaeth i ehangu a gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr.</p> <p>Parhau i fonitro a chynnal systemau rheoli casgliadau'r Llyfrgell a gwella profiad defnyddwyr o ddarganfod adnoddau.</p> <p>Parhau i weithredu argymhellion yr Adolygiad Systemau (Chwefror 2013) o fewn cyfyngiadau ariannol.</p>
3.2.7	<p>Gweithredu'r Memorandwm Dealltwriaeth a arwyddwyd gydag ITV Cymru wrth drosglwyddo archif ITV Cymru i Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.</p> <p>Cynnal y gwasanaeth i ITV, a datblygu a chynnal mynediad i'r cyhoedd trwy'r catalog.</p>
3.2.8	<p>Parhau i ddatblygu arbenigedd mewn hawliau gwybodaeth, a datblygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau mewnol.</p>
3.2.9	<p>Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn benodol drwy weithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2010 - 2013 (2010). Bydd y Llyfrgell yn parhau i brif ffrydio cydraddoldeb a sicrhau bod ein polisiau a'n gwasanaethau'n sicrhau cyfle cyfartal i bawb.</p>
3.2.10	<p>Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr.</p>
3.2.11	<p>Parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob un o weithgareddau mewnol ac allanol y Llyfrgell.</p>

Datblygiadau

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r prif ddatblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Nid ydynt wedi eu rhestru ar sail blaenoriaeth. Mae'r datblygiadau wedi eu rhestru'n unol â'r Pum Blaenoriaeth Strategol.

Mynediad	
3.3.1	<p>Sefydlu pwyntiau mynediad ffisegol newydd mewn safleoedd strategol trwy Gymru, yn cynnwys Merthyr Tudful, Caerdydd ac Abertawe.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 1.1): <i>'Ehangu presenoldeb y Llyfrgell ar draws Cymru, a chynyddu cyfranogiad trwy ennyn diddordeb cymunedau lleol mewn gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau ac adfywio cymdeithasol'</i>.</p>
3.3.2	<p>Parhau i fod yn fwy dethol wrth ddewis yr hyn sy'n cael ei gasglu ar ffurf print, cynyddu mynediad at yr adnoddau electronig sydd ar gael y tu hwnt i'r adeilad, a dechrau gweithredu'r llif gwaith i brosesu a chynnig mynediad i archifau digidanedig.</p> <p>Parhau i weithredu Polisi Datblygu Casgliadau a Strategaeth Adneuo'r Llyfrgell.</p> <p>Datblygu casgliad e-adnoddau Cymru Gyfan trwy ymgynghori â Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a CyMAL.</p>
3.3.3	<p>Cynnal rhaglenni digidol ar raddfa fwy er mwyn darparu casgliadau chwiliadwy yn cynnwys ar ffurf testun.</p> <p>Parhau i gyfrannu at goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'n genedlaethol, yn cynnwys digido a darparu mynediad at ddeunydd Rhyfel Byd Cyntaf (prosiect partneriaeth a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth). Chwilio am gyfleoedd ariannu i barhau i ddigido deunydd archifol o'r Rhyfel Byd Cyntaf.</p> <p>Parhau i ychwanegu deunyddiau at adnodd Cymru1914 a ddatblygwyd fel rhan o brosiect partneriaeth Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth.</p> <p>Gweithredu prosiect Cymru a'r Rhyfel gan ganolbwyntio ar addysg ac allgymorth yn gysylltiedig â chofebau rhyfel Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r lluoedd arfog, ac addysg ac ysgolion yng Nghymru.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 4.1): <i>'Cyfrannu at raglen weithgareddau</i></p>

	<p><i>genedlaethol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'</i></p> <p>Datblygu adnoddau addysgol a sicrhau bod y rhain ar gael i Hwb.</p> <p>Parhau i ychwanegu teitlau at yr adnodd Papurau Newydd a Chylchgronau Cymraeg Ar-lein ynghyd â'r OCR a fydd yn fodd i chwilio'r cynnwys, a monitro'r defnydd ohono.</p> <p>Datblygu ar y cyd Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth Ddigidol Cymru Gyfan gydag Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol.</p> <p>Hwyluso mynediad trwy weithredu Egwyddorion Mynediad i Eitemau Casgliadau.</p> <p>Gweithredu prosiect Cynefin a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri: 'Mapio Cymru, Ymdeimlad o Le' sy'n cael ei arwain gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol ac archifdai awdurdodau lleol trwy Gymru.</p> <p>Cyfrannu at gynnwys cynllun Ymchwil Ewropeana yr Undeb Ewropeaidd a monitro'r defnydd o gynnwys y Llyfrgell ar Lyfrgelloedd Ewropeana.</p> <p>Cynllunio ar gyfer Patagonia 150 a digido mwy o gynnwys mewn cydweithrediad â CyMAL a Chasgliad y Werin.</p> <p>Parhau i weithredu'r rhaglen ddigidol sy'n cael ei hariannu'n fewnol, yn cynnwys elfennau o 'Theatr y Cof' (treftadaeth brintiedig Cymru).</p> <p>Datblygu cynlluniau i ehangu a chyfoethogi'r 'Bywgraffiadur Cymreig' mewn partneriaeth â Chanolfan Uwch Efrydiau Celtaidd Prifysgol Cymru.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.6): <i>'Gweithio gyda phartneriaid ehangach, a chefnogi cynlluniau digidol eraill i gynyddu mynediad ar-lein at ddeunydd diwylliannol Cymru (yn cynnwys prosiect Cynefin a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri)'</i></p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 4.1) <i>'Cyfrannu at raglen weithgareddau genedlaethol i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'</i></p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 4.1): <i>'Parhau i chwarae rhan arweiniol yn narpariaeth ffederal gwasanaeth treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru sy'n cefnogi ymgysylltu cymunedol â diwylliant a threftadaeth Cymru, cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau digidol, a darparu fforwm cydweithredol ar gyfer cynlluniau treftadaeth ddigidol cenedlaethol.'</i></p>
3.3.4	Yn unol ag egwyddorion ac argymhellion y Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol, buddsoddi ac ymchwilio i systemau a sgiliau a fydd yn

	<p>diogelu ac yn sicrhau mynediad at yr adnoddau digidol a gedwir yn storfa ddigidol y Llyfrgell.</p> <p>Parhau i gynnal mynediad parhaus at yr adnoddau digidol a gedwir yn y Llyfrgell drwy gynnwys cadwedigaeth ddigidol mewn llif gwaith a thrwy fonitro cynnydd tuag at yr amcanion sydd yn Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol 2012-15 (2012) a Strategaeth Ddigidol 2012-15 (2012).</p> <p>Datblygu ar y cyd Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth Ddigidol Cymru Gyfan gydag Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol.</p>
3.3.5	<p>Sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau'r Llyfrgell yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr a ddaw i'r Llyfrgell a defnyddwyr o bell, fel y nodwyd drwy ymgynghori â defnyddwyr, a thrwy fonitro a gwerthuso gwybodaeth am ddefnyddwyr.</p> <p>Parhau i weithredu'r prosesau a fydd yn fodd i ddefnyddwyr fynegi eu barn ar y dewis o eitemau i'w digido a'u prynu.</p> <p>Sefydlu dull cyson o gasglu adborth am ddigwyddiadau'r Llyfrgell.</p> <p>Adennill safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 1.2): <i>'Gosod y defnyddiwr yng nghanol datblygiadau gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth i ddefnyddwyr newydd a phresennol trwy Gymru, yn seiliedig ar eu hanghenion'</i>.</p>
3.3.6	<p>Datblygu a gweithredu'r strategaethau a'r polisiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Marchnata • Estyn Allan • Arddangosfeydd
3.3.7	<p>Gweithredu Strategaeth Ddigidol 2012-15 (2012).</p> <p>Cefnogi cynhwysiant digidol trwy barhau i gynhyrchu cynnwys diwylliannol o ansawdd uchel.</p> <p>Helpu cwmnïau i fanteisio ar adnoddau digidol detholedig yn y Llyfrgell trwy brosiect DigiDo a ariennir ag arian Ewrop.</p> <p>Gweithredu'r strategaeth a fydd yn caniatáu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Digidol ar gyfer mynediad • Digidol ar gyfer cadwedigaeth • Digidol ar gyfer defnyddwyr a chwsmeriaid allanol

3.3.8	<p>Datblygu Web 2.0 a Rhwydwaith Gyfrifiadurol Gymdeithasol 3.0 a dechrau cynllunio ar gyfer Web 4.0.</p> <p>Parhau i ehangu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol Web 2.0, er mwyn hyrwyddo ac ymgysylltu â'n defnyddwyr.</p> <p>Parhau i chwilio am dechnolegau arloesol newydd i hyrwyddo gwaith y Llyfrgell.</p>
3.3.9	<p>Cadarnhau a datblygu ein rhaglen ymchwil mewn casgliadau digidol.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 1.3): <i>'Cefnogi dysgu ffurfiol trwy gyfrannu cynnwys digidol ac adnoddau addysgol o ansawdd uchel, yn Gymraeg a Saesneg, i lwyfan Hwb'.</i></p>
3.3.10	<p>Sicrhau bod y Llyfrgell yn chwarae rhan lawn ym mlaenoriaeth Llywodraeth Cymru i drechu tloidi</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 2.1): <i>'Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried a helpu i weithredu ar ganfyddiadau ac argymhellion o adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch cyfraniad fy nghyrff a noddir i adolygu a datblygu cynllunio ar gyfer gweithgareddau'r Llyfrgell sy'n cefnogi agenda blaenoriaeth Trechu Tloidi Llywodraeth Cymru, yn arbennig wrth greu cysylltiadau agosach gyda chlystyrau Cymunedau'n Gyntaf.</i></p>
3.3.11	<p>Ystyried ffyrdd o ddatblygu'r Llyfrgell fel lluosydd economaidd</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 2.4): <i>'Ymchwilio i gyfleoedd i ddangos tystiolaeth o gyfraniad y Llyfrgell at economi Cymru, a chynyddu hynny, gan adeiladu ar eich gwaith presennol gyda diwydiannau creadigol o dan eich prosiect DigiDo a ariennir ag arian Ewrop'.</i></p>
3.3.12	<p>Cefnogi'n weithgar Gasgliad y Werin ac yn benodol yr elfennau Cynnwys, Safoni ac Ymgysylltu Cymunedol a oedd yn cynnwys darparu gweithgareddau'n ymwneud â 'Chymru'n Cofio'.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 4.2): <i>'Parhau i chwarae rhan arweiniol yn narpariaeth ffederal gwasanaeth treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru sy'n cefnogi ymgysylltu cymunedol â diwylliant a threftadaeth Cymru, cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau digidol, a darparu fforwm cydweithredol ar gyfer cynlluniau treftadaeth ddigidol cenedlaethol'.</i></p>
Arbenigedd	
3.3.13	<p>Parhau â thrafodaethau gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu rhwydwaith gwasanaethau cadwraeth a digidol ar gyfer treftadaeth ddogfennol Cymru.</p>

	<p>Ystyried ffyrdd o gynnal staff sydd â sgiliau wedi datblygu i lefel uchel a sgiliau prin yn arbennig ym maes cadwraeth a chadwedigaeth ddigidol.</p> <p>Gweithio gyda llyfrgellwyr ac archifwyr trwy Gymru i drafod catalogio a hyfforddiant RDA yn y sectorau hynny.</p> <p>Datblygu rhwydwaith cadwraeth i weithredu Strategaeth Gadwraeth Genedlaethol trwy weithio gyda phartneriaid strategol a gweithredol.</p> <p>Hyrwyddo a datblygu sgiliau ym maes cadwedigaeth gwybodaeth ddigidol trwy ddatblygu Rhwydwaith Gwasanaethau Cadwraeth a Digidol.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.1): <i>‘Mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector, datblygu cynlluniau ar gyfer isadeiledd cenedlaethol i gefnogi gweithgareddau cadwraeth a chadwedigaeth ddigidol yng Nghymru, trwy Rwydwaith Gwasanaethau Cadwraeth a Digidol y Llyfrgell ar gyfer Treftadaeth Ddogfennol.</i></p>
3.3.14	Ymrwymo i ddatblygu ein staff fel y gallant barhau i gynnig gwasanaeth effeithiol i’r rhai sy’n defnyddio’r Llyfrgell.
3.3.15	Datblygu sgiliau entrepreneuriaidd a busnes.
Cydweithio	
3.3.16	<p>Bydd y Llyfrgell yn caffael a darparu gwasanaethau ar-lein ar gyfer llyfrgelloedd Cymru erbyn 1 Ebrill 2015, yn cynnwys papurau newydd, hanes teulu, a phorth llyfrgelloedd Cymru, fel rhan o’r elfen ‘Adnoddau i Bawb’ o strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.5): <i>‘Cyfrannu at ddarparu strategaethau Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli ac Archifau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, yn unol â’r hyn a gytunir yn y cynlluniau cyflawni’r strategaethau hyn, ac yn unol â chytundebau partneriaeth ar gyfer prosiectau penodol’.</i></p>
3.3.17	<p>Datblygu ar y cyd ‘gynnig digidol y llyfrgell’ i Gymru a sefydlu gweithgor ar gyfer y prosiect hwn erbyn Medi 2014.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.7): <i>‘Ystyried sut y gall y Llyfrgell Genedlaethol weithredu neu gyfrannu at argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan Syr Paul Williams’.</i></p>
3.3.18	Cydweithredu â sefydliadau’r Deyrnas Unedig mewn meysydd sy’n berthnasol i’r Llyfrgell.
3.3.19	Cyfrannu at ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig â Chyrff eraill a Noddir gan

	Lywodraeth Cymru.
3.3.20	Gweithredu ac ehangu'r Strategaeth Wirfoddoli i leoliadau newydd. <i>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 2.2): 'Darparu cyfleoedd i unigolion gael cyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol, a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol trwy wirfoddoli.'</i>
3.3.21	Parhau i chwarae rhan arweiniol i alluogi i aelodau o'r Cyngor Archifau a Chofnodion roi sylw i gadw a chynnal cofnodion digidol a sicrhau mynediad (amcan strategol 3 y Cyngor Archifau a Chofnodion) <i>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.3): 'Parhau i gefnogi'r Consortiwm Cadwedigaeth Ddigidol i wella'r gallu trwy Gymru i reoli a gwarchod casgliadau digidol'.</i>
3.3.22	Datblygu gweithgareddau Cadeirydd Casgliadau Digidol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, er budd y Llyfrgell, y Brifysgol a phawb sy'n defnyddio ei chasgliadau digidol. <i>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.4): 'Ymgymryd â rôl arweiniol genedlaethol o ran datblygu a rhannu arferion da yn ymwneud â digido.'</i>
3.3.23	Parhau i drafod â'r Comisiwn Brenhinol y gofynion yn gysylltiedig â ble i gadw Cofnodion Cofebau Cenedlaethol a materion cysylltiedig. <i>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 3.2): 'Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i sefydlu trefniadau i gydleoli Cofnod Henebion Cenedlaethol a gwasanaethau cysylltiedig yn y Llyfrgell. Dylai gynnwys darpariaeth storfa briodol ar gyfer y Cofnod Henebion Cenedlaethol a staff cysylltiedig perthnasol fel rhan o ddatblygiad prosiect y Cwrt, yn unol â'ch achos busnes y cytunwyd arno ar gyfer y buddsoddiad o £3.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru'.</i>
3.3.24	Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu a darparu arddangosfa arloesol i gyfrannu at ddathliadau Gŵyl 100 Dylan Thomas.
Cynaliadwyedd	
3.3.25	Cynnal diwylliant o welliannau parhaus, a nodi cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd, rhannu gwasanaethau, gwella effeithiolrwydd a chynlluniau buddsoddi i arbed. <i>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 5.2): 'Ymchwilio i gyfleoedd i rannu gwasanaethau a chynyddu cynaliadwyedd trwy gydweithio â sefydliadau eraill'.</i>
3.3.26	Gwella effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd mewn rheolaeth

	amgylcheddol mewn ardaloedd cadwrfeydd trwy ystyried technegau newydd.
3.3.27	Sicrhau bod arbenigedd a gwybodaeth guradurol yn cael ei chadw a'i datblygu yn y Llyfrgell a thrwy hynny gynnal datblygiad parhaus y casgliad a mynediad ato'n seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth guradurol ar sail disgrifio, dehongli, a digido, a thrwy hynny alluogi eraill - yn cynnwys partneriaid cymunedol - i ymgysylltu'n ystyrlon â'r casgliad.
Blaengaredd	
3.3.28	Arwain trafodaeth genedlaethol ar y posibilrwydd o sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru.
3.3.29	Datblygu 'Strwythur Gwybodaeth Cymru Gyfan'. Mewn cydweithrediad â'i phartneriaid, bydd y Llyfrgell yn darparu llwyfan i ddatblygu strwythur gwybodaeth Cymru gyfan i ddarparu gwybodaeth i bawb.
3.3.30	Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau statws IRO.

3.4 Swyddogaethau Cefnogi

Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaethau ategol a fydd yn sail i ddarparu'r cynllun gweithredu hwn. Dyma'r 'swyddogaethau ategol':

3.4.1	Ymgymryd â rhaglen ailstrwythuro sefydliadol lawn, a'i gweithredu.
3.4.2	<p>Blaenoriaethu hyfywedd ariannol a chael hyd i ffrydiau ariannu amrywiol.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl: (RL 5.1): <i>'Mynd ati i geisio cyfleoedd i greu incwm, codi arian, a chael mynediad at ffrydiau ariannu mwy amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell'</i>.</p>
3.4.3	<p>Gweithredu rhannau o'r Strategaeth Adeilad a Gwasanaethau, o fewn y cronfeydd sydd ar gael.</p> <p>Parhau i gynllunio ar gyfer storio casgliadau yn y dyfodol.</p> <p>Gweithredu'r Strategaeth Adeilad a Gwasanaethau a fydd yn ystyried datblygu, gwella a thrwsio adeiladau'r Llyfrgell, yn ogystal ag unrhyw ofynion ychwanegol sy'n deillio o'r Rhaglen Datblygu Gofod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud gwaith trwsio hanfodol, yn cynnwys y to a'r isadeiledd ffisegol; • Gwneud gwelliannau cynaliadwy; • Addasu'r adeilad mewn ymateb i'r Rhaglen Trawsnewid Busnes a chanfyddiadau'r archwiliad gofod.
3.4.4	<p>Datblygu rhaglenni codi arian a pharhau i gael incwm masnachol ar gyfer y Llyfrgell.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 5.1): <i>'Mynd ati i geisio cyfleoedd i greu incwm, codi arian, a chael mynediad at ffrydiau ariannu mwy amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell'</i>.</p>
3.4.5	<p>Datblygu a gweithredu cynllun creu incwm ar gyfer Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.</p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl (RL 5.1): <i>'Mynd ati i geisio cyfleoedd i greu incwm, codi arian, a chael mynediad at ffrydiau ariannu mwy amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell'</i>.</p>
3.4.6	<p>Adfer y cyfleuster cyfrifyddol a ddifrodwyd gan y dŵr yn dilyn y tân yn y Llyfrgell, ar ôl cael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Caffael, gosod a chomisiynu ystafell gweinyddion fodern, effeithiol a modwlar, gan leihau ôl troed ffisegol a charbon y cyfleuster a darparu system eilaidd wrth gefn</p>

	ar y safle ar gyfer gwasanaethau electronig y Llyfrgell i ddefnyddwyr yn yr adeilad a hebddo.
3.4.7	Rhesymoli a chadarnhau'r llwyfannau storio presennol yn atebion effeithlon a hyblyg i leihau cefnogaeth weithredol a chostau trydanol. Datblygu a gweithredu strategaethau newydd i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd storio digidol er mwyn gwneud y mwyaf o fuddsoddiad y llyfrgell yn ei systemau storio digidol.

Yr adnoddau a fydd ar gael

Cymorth Grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar ddyraniadau Cymorth Grant i'r Llyfrgell ar gyfer 2013-14, yn ogystal â ffigyrau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd sy'n dilyn fel y dangosir isod (Tabl 1).

	2013-14 <i>£000</i>	2014-15 <i>£000</i>	2015-16 <i>£000</i>
Cyllideb sylfaenol	10,541	10,541	10,341
Lleihad		(200)	(200)
Cymorth Grant Gros			
Heb incwm	(420)	(420)	(420)
	10,121	9,921	9,721
Cyfanswm costau rhedeg			
Grant cyfalaf	550	550	550
<i>Grantiau cyfalaf penodol:</i>			
Cyfalaf Ychwanegol	2,472	375	
Gwasanaeth Cadwraeth a Digidol Cam 1		3,300	200
Grant Prynu Casgliadau	305	305	305
Cyfanswm cyfalaf	2,777	4,530	1,055
Cyfanswm	12,898	14,451	10,776

Tabl 1

Costau Rhedeg

Mantoli cyllideb costau rhedeg yw'r prif bryder i'r Llyfrgell yn y cyfnod rhwng 2014/15 a 2015/16. Daw'r lleihad yn y gyllideb ar ôl cyfnod parhaol o bron i ddegawd lle mae'r grant wedi methu â dal i fyny â chwyddiant. Mae'r cwmpas ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd yn gyfyngedig, ac mae'n anochel y bydd angen i'r Llyfrgell gollu aelodau o staff er mwyn parhau'n hyfyw yn ariannol. Hefyd mae angen i'r Llyfrgell ryddhau adnoddau refeniw er mwyn gweithredu ei strategaeth newydd a fydd yn alinio ei hallbynnau'n agosach â pholisïau Llywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud hyn bydd angen creu arbedion pellach a hefyd newid rolau a chyfrifoldebau staff.

Mae'r Llyfrgell wedi gwneud cais am gyllid Buddsoddi i Arbed i ariannu'r broses o gollu staff trwy gynlluniau ymddeol yn gynnar a diswyddo. Bydd cynaliadwyedd ariannol y Llyfrgell yn y tymor canolig a hir yn dibynnu ar leihau'n sylweddol nifer y staff y mae'n eu cyflogi. Yr un pryd, mae'r Llyfrgell wedi rhewi tâl staff ers 5 mlynedd er mwyn rheoli ei chostau ac mae Llywodraeth Cymru'n gorfodi'r Llyfrgell i symud tuag at dalu'r Cyflog Byw.

Yn 2013-14 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad cyfalaf ychwanegol i'r Llyfrgell ar gyfer adeilad y Llyfrgell a'r isadeiledd er mwyn gallu gwneud gwaith trwsio a datblygu hanfodol. Bydd y gwaith adeiladu sylweddol a wneir yn 2014-15 yn cynnwys y cam paratoi hanfodol ar gyfer datblygu ac ehangu'r Rhwydwaith Gwasanaeth Cadwraeth a Digidol, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cronfeydd preifat

Mae cronfeydd preifat yn darparu adnoddau ychwanegol hanfodol tuag at y grant a ddarperir gan y Cynulliad ac mae'r Llyfrgell yn bwriadu gwario cyfanswm o £514K yn 2014-15 (gweler Tabl 2).

<i>Cefnogaeth cronfeydd preifat</i>	<i>£000</i>
Costau rhedeg	345
Rhaglen gyfalaf	100
Grant Pwrcasu (Casgliadau)	69
CYFANSWM	514

Dangosyddion cyflawni a thargedau

Mae amcanion datblygu ar gyfer 2014-15 a dangosyddion perthnasol wedi eu rhestru yn Atodiad 2. Yn Atodiad 3 ceir tabl sy'n crynhoi dangosyddion allweddol y Llyfrgell ar gyfer darparu gwasanaeth effeithiol a llwyddiannus. Bydd hyn yn fodd i fonitro a dadansoddi tueddiadau yn ystod blynyddoedd nesaf.

Bydd cynnydd a pherfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn cael eu monitro a chyflwynir adroddiad arnynt bob chwarter i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell.

Ymchwil a gwerthuso

Un o brif ddyletswyddau'r Llyfrgell Genedlaethol yw cefnogi ymchwil. Mae'n cyfrannu ei hun at ymchwil drwy ei Chadair Casgliadau Digidol, a hynny ym maes creu a defnyddio deunydd ar ffurf ddigidol. Bydd y Llyfrgell yn adeiladu ar allu mewnlol presennol i gynnal ymchwil a fydd yn ymestyn a gwella'n sylweddol sylfaen ymchwil y genedl ac yn dangos ein gallu annibynnol i ymgymryd â rhaglenni ymchwil, a'u harwain.

Mae hefyd yn gwerthuso ac yn cynnal ymchwil cymhwysol i sicrhau y caiff ei phrif weithgareddau eu cyflawni'n ddeallus a'u monitro'n dda. Gwneir hyn drwy:

- raglen barhaus o adolygu a monitro swyddogaethau a gweithgareddau penodol
- defnyddio methodolegau cynllunio prosiect safonol ar gyfer pob prosiect mawr a ddatblygir
- defnyddio dangosyddion perfformiad, rhai meintiol ac ansoddol, gan gynnwys arolygon defnyddwyr.

Rheoli risg

Mae'r Llyfrgell yn cadw *Cofrestr Risg* ac yn ei diweddarau'n gyson. Mae hon yn rhestru'r holl risgiau o bwys sy'n wynebu'r Llyfrgell wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau craidd. Yn achos pob risg dynodir math, cyfradd effaith a thebygolrwydd, a chyfradd gyffredinol, ynghyd â disgrifiad a datganiad o'r modd y caiff pob risg ei rheoli.

Cyflwynir y *Gofrestr Risg* yn rheolaidd i sylw Pwyllgor Archwilio'r Llyfrgell.

Llywodraethu

Yn 2013 mabwysiadodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell ei Fframwaith Llywodraethu cyntaf sy'n amlinellu prif gyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol: pwerau dirprwyo'r Bwrdd; ymddygiad disgwylidig y Bwrdd; a gweithrediadau'r Bwrdd wrth ddarparu ein Strategaeth a'n gwasanaethau i bobl Cymru.

Atodiad 1

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Llyfrgell yn ystod 2014-15:

1. Ehangu mynediad at gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl ble bynnag y maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), hyrwyddo cyfranogiad ac ennyn eu diddordeb yn niwylliant a threftadaeth Cymru, yn arbennig ymysg grwpiau cymunedol a lleiafrifol dan anfantais:

- Ehangu presenoldeb y Llyfrgell ar draws Cymru, a chynyddu cyfranogiad trwy ennyn diddordeb cymunedau lleol mewn gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau ac adfywio cymdeithasol (Cylch Gorchwyl 1.1)
- Gosod y defnyddiwr yng nghanol datblygiadau gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth i ddefnyddwyr newydd a phresennol trwy Gymru, yn seiliedig ar eu hanghenion (Cylch Gorchwyl 1.2)
- Cefnogi dysgu ffurfiol trwy gyfrannu cynnwys digidol ac adnoddau addysgol o ansawdd uchel, yn Gymraeg a Saesneg, i lwyfan Hwb' (Cylch Gorchwyl 1.3)

2. Gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried a helpu i weithredu ar ganfyddiadau ac argymhellion o adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch cyfraniad fy nghyrff a noddir i agenda blaenoriaeth Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, yn arbennig wrth greu cysylltiadau agosach gyda chlystyrau Cymunedau'n Gyntaf (Cylch Gorchwyl 2.1)
- Darparu cyfleoedd i unigolion gael cyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol, a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol trwy wirfoddoli (Cylch Gorchwyl 2.2)
- Nodi dulliau i ganiatáu i weithgareddau'r Llyfrgell Genedlaethol gyfrannu tuag at argymhellion a gynhwysir yn adroddiad gan yr Athro Dai Smith ynghylch y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (Cylch Gorchwyl 2.3)
- Ymchwilio i gyfleoedd i ddangos tystiolaeth o gyfraniad y Llyfrgell at economi Cymru, a chynyddu hynny, gan adeiladu ar eich gwaith presennol gyda diwydiannau creadigol o dan eich prosiect DigiDo a ariennir ag arian Ewrop' (Cylch Gorchwyl 2.4)

3. Cydweithio gyda'r sector llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai yng Nghymru, a phartneriaid eraill, i nodi a gweithredu ffyrdd cynaliadwy a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethu trwy Gymru:

- Mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector, datblygu cynlluniau ar gyfer isadeiledd cenedlaethol i gefnogi gweithgareddau cadwraeth a chadwedigaeth ddigidol

yng Nghymru, trwy Rwydwaith Gwasanaethau Cadwraeth a Digidol y Llyfrgell ar gyfer Treftadaeth Ddogfennol Cymru. (Cylch Gorchwyl 3.1)

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i sefydlu trefniadau i gydleoli Cofnod Henebion Cenedlaethol a gwasanaethau cysylltiedig yn y Llyfrgell. Dylai gynnwys darpariaeth storfa briodol ar gyfer y Cofnod Henebion Cenedlaethol a staff cysylltiedig perthnasol fel rhan o ddatblygiad prosiect y Cwrt, yn unol â'r achos busnes y cytunwyd arno ar gyfer y buddsoddiad o £3.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru' (Cylch Gorchwyl 3.2)
- Parhau i gefnogi'r Consortiwm Cadwedigaeth Ddigidol i wella'r gallu trwy Gymru i reoli a gwarchod casgliadau digidol' (Cylch Gorchwyl 3.3)
- Ymgymryd â rôl arweiniol genedlaethol o ran datblygu a rhannu arferion da yn ymwneud â digido (Cylch Gorchwyl 3.4)
- Cyfrannu at ddarparu strategaethau Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli ac Archifau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, yn unol â'r hyn a gytunir yn y cynlluniau cyflawni'r strategaethau hyn, ac yn unol â chytundebau partneriaeth ar gyfer prosiectau penodol' (Cylch Gorchwyl 3.5)
- Gweithio gyda phartneriaid ehangach, a chefnogi cynlluniau digidol eraill i gynyddu mynediad ar-lein at ddeunydd diwylliannol Cymru (yn cynnwys prosiect Cynefin a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri) (Cylch Gorchwyl 3.6)
- Ystyried sut y gall y Llyfrgell Genedlaethol weithredu neu gyfrannu at argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan Syr Paul Williams'.
(Cylch Gorchwyl 3.7)

4. Datblygu proffil y Llyfrgell yn y Deyrnas Unedig, yn genedlaethol a rhyngwladol, gan gyfrannu at gynlluniau cenedlaethol a chefnogi Llywodraeth Cymru yn y gwaith o hyrwyddo Cymru a'n diwylliant a'n treftadaeth i'r byd ehangach trwy weithgareddau fel:

- Cyfrannu at raglen weithgareddau genedlaethol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru' (Cylch Gorchwyl 4.1)
- Parhau i chwarae rhan arweiniol yn narpariaeth ffederal gwasanaeth treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru sy'n cefnogi ymgysylltu cymunedol â diwylliant a threftadaeth Cymru, cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau digidol, a darparu fforwm cydweithredol ar gyfer cynlluniau treftadaeth ddigidol cenedlaethol' (Cylch Gorchwyl 4.2)
- Cefnogi partneriaethau tramor strategol Llywodraeth Cymru (e.e. gyda Tsieina)

5. Sicrhau bod y Llyfrgell yn prif ffrydio cynaliadwyedd yn eich cynllunio mewnol ein hun, gan ddefnyddio staff, adnoddau a chyfleusterau'n effeithiol ac effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau allweddol a chyflawni blaenoriaethau strategol:

- Mynd ati i geisio cyfleoedd i greu incwm, codi arian, a chael mynediad at ffrydiau ariannu mwy amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell (Cylch Gorchwyl 5.1)
- Ymchwilio i gyfleoedd i rannu gwasanaethau a chynyddu cynaliadwyedd trwy gydweithio â sefydliadau eraill'. (Cylch Gorchwyl 5.2)

Atodiad 2

Amcanion datblygu 2014-15

Blaenoriaethau'r Llythyr Cylch Gorchwyl	Amcanion datblygu	Dangosyddion perthnasol
<p>1. Ehangu mynediad at gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl ble bynnag y maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), hyrwyddo cyfranogiad ac ennyn eu diddordeb yn niwylliant a threftadaeth Cymru, yn arbennig ymysg grwpiau cymunedol a lleiafrifol dan anfantais.</p>	<p>Sefydlu pwyntiau mynediad ffisegol newydd yng Nghaerdydd ac Abertawe erbyn Mawrth 2015</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymwelwyr i'r Llyfrgell • Nifer yr ymwelwyr i wefannau'r Llyfrgell • Nifer y digwyddiadau allgymorth a nifer y cyfranogwyr • Nifer y digwyddiadau allgymorth a nifer y cyfranogwyr yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf • Nifer yr eitemau o'r casgliadau sy'n cael eu harddangos yn gyhoeddus (yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill) • Nifer y delweddau newydd a grëir trwy raglen ddigido'r Llyfrgell • Nifer y delweddau newydd a grëir gan y Llyfrgell trwy gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol • Nifer yr adnoddau dysgu digidol a ddatblygwyd gan yr Uned Addysg trwy brosiectau cydweithredol
	<p>Adolygu dulliau presennol y Llyfrgell o gasglu ac ymateb i adborth gan ddefnyddwyr erbyn Ionawr 2015.</p>	
	<p>Datblygu 30 o adnoddau dysgu digidol ac asedau digidol a sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael ar-lein erbyn 31 Mawrth 2015.</p>	
<p>2. Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng</p>	<p>Cyfrannu at drafodaethau ar y cyd gyda chyrrff eraill a noddir a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun darparu ar y cyd ar gyfer Trechi Tlodi trwy Ddiwylliant a'r Celfyddydau mewn Addysg erbyn Gorffennaf 2014.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau'r Llyfrgell • Canran y gwirfoddolwyr sy'n mynd yn eu blaenau i gael gwaith • Dangosydd prosiect ar gyfer DigiDo –

Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl	Parhau i ddatblygu Strategaeth Wirfoddoli'r Llyfrgell. Datblygu model ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned leol erbyn Mawrth 2015.	Nifer y busnesau / unigolion a gynorthwywyd. <ul style="list-style-type: none"> Dangosydd prosiect ar gyfer Cynefin – gweler isod <p>Bydd canlyniadau a dangosyddion yn ymwneud â Threchu Tlodi trwy Ddiwylliant a'r Celfyddydau mewn Addysg yn cael eu nodi yn y Cynllun Darparu ar y cyd (a ddatblygir erbyn Gorffennaf 2014).</p>
	Sicrhau bod prosiect DigiDO a ariennir ag arian Ewrop yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, yn unol â'r targedau a'r amserlen y cytunwyd arni gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.	Bydd y gwaith o lunio adroddiad diwedd prosiect a gwerthuso prosiect DigiDO a ariennir ag arian o Ewrop yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2015.
	Comisiynu adroddiad ar effaith economaidd a budd gwasanaethau ac adnoddau'r Llyfrgell erbyn Rhagfyr 2014.	Cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i'w ystyried erbyn Rhagfyr 2014.
3. Cydweithio gyda'r sector llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai yng Nghymru, a phartneriaid eraill, i nodi a gweithredu ffyrdd cynaliadwy a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau trwy Gymru	Datblygu'r Gwasanaeth / Rhwydwaith Cadwraeth a Digidol ar gyfer prosiect Treftadaeth Ddogfennol Cymru'n unol gofynion ac amserlen Cronfa Treftadaeth y Loteri?	Bydd gofynion ac amserlenni Cronfa Treftadaeth y Loteri'n cael eu hychwanegu yma os bydd y cais yn llwyddiannus.
	Parhau i drafod â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru y gofynion yn gysylltiedig â man cadw Cofnod Henebion Cymru a materion cysylltiedig.	Cytuno ar flaen gynllun a cherrig milltir gyda'r Comisiwn erbyn Medi 2014.

	<p>Cytuno ar ddyluniad ar gyfer Prosiect Datblygu'r Cwrt erbyn Mehefin 2014, a dechrau gweithio ar y safle erbyn Medi 2014.</p>	<p>Mae'r canlyniadau a'r dangosyddion sy'n ymwneud â Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli ac Archifau ar gyfer yr 21^{ain} ganrif wedi eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer y strategaethau hyn.</p> <p>Erbyn 1 Hydref 2014: * Caffael a gosod systemau Cymorth Torfol ar gyfer Geogyfeirio a Thrawsysgrifio</p> <p>Erbyn 1 Hydref 2015 * 300 o wirfoddolwyr wedi cofrestru gyda systemau Cymorth Torfol Cynefin * 550 o fapiau wedi eu geogyfeirio * 700 o fapio wedi eu digido * 10,000 o ddogfennau dosraniad rhent-dâl y degwm wedi eu trawsysgrifio o leiaf unwaith.</p> <p>Erbyn 1 Hydref 2016 * 550 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ac wedi</p>
<p>Caffael a darparu gwasanaethau ar-lein ar gyfer llyfrgelloedd Cymru erbyn Ebrill 2015, yn cynnwys papurau newydd, hanes teulu a phorth llyfrgelloedd Cymru, fel rhan o elfen 'Adnoddau i Bawb' y strategaeth <i>Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli</i>.</p> <p>Darparu cyfraniadau y cytunwyd arnynt tuag at <i>Archifau ar gyfer yr 21^{ain} ganrif</i> yn unol â'r cynllun gweithredu.</p>		
<p>Gweithredu prosiect Cynefin</p>		

		<p>defnyddio system Cymorth Torfol Cysefin yn y 2 flynedd ddiwethaf</p> <ul style="list-style-type: none"> * 1100 o fapiau wedi eu geogyfeirio * 1100 o fapio wedi eu digido * 30,000 o ddogfennau dosraniad rhent-dâl y degwm <p>Sefydlir y gweithgor ar gyfer y prosiect hwn erbyn Medi 2014, a chytunir ar y dangosyddion a'r cerrig milltir ar gyfer pob partner erbyn Rhagfyr 2014.</p>
<p>4. Datblygu proffil y Llyfrgell yn y Deyrnas Unedig, yn genedlaethol a rhyngwladol, gan gyfrannu at gynlluniau cenedlaethol a chefnogi Llywodraeth Cymru yn y gwaith o hyrwyddo Cymru a'n diwylliant a'n treftadaeth i'r byd ehangach.</p>	<p>Gweithio gyda'r sector i ymchwilio i gynnig digidol y llyfrgell i Gymru, a'i ddatblygu, yn unol ag argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn sicrhau 'gwasanaethau cydgysylltiedig sydd wedi eu trawsnewid yn ddigidol sy'n darparu gwell canlyniadau a gwasanaethau mwy effeithlon trwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru'.</p> <p>Darparu gweithgareddau i gefnogi'r Rhaglen swyddogol gyntaf i Goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Arwain gweithgareddau y cytunwyd arnynt yn ymwneud ag Ymgysylltu â'r Gymuned; Cynnwys, Golygu a Safoni, fel yr amlinellir yng nghynllun busnes <i>Casgliad y Werin</i> ar gyfer 2014-15 yn cynnwys Cymru'n Cofio. Cyfrannu at amcanion a blaenoriaethau ehangach y rhaglen yn unol â strategaeth newydd y rhaglen ar gyfer 2014-2017.</p> <p>Datblygu rôl arweinyddiaeth a rhannu arfer da</p>	<p>Bydd y Llyfrgell yn llunio adroddiad ar Weithgareddau y cytunwyd arnynt ar gyfer Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer CyMAL yn Rhagfyr 2014.</p> <p>Mae'r canlyniadau a'r dangosyddion yn ymwneud â Chasgliad y Werin wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes a'r cynllun gwerthuso ar gyfer y rhaglen hon.</p>

	<p>yn gysylltiedig â digido a materion digidol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwy gyfraniad y Llyfrgell at raglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin a chynlluniau cydweithredol eraill • Trwy waith ei Chadair Casgliadau Digidol. • Trwy ddatblygu'r Rhwydwaith Cadwraeth a Digidol ar gyfer Treftadaeth Ddogfennol Cymru 	<p>Llunio adroddiad bob chwarter i Lywodraeth Cymru ar gyfraniad y Llyfrgell a thargedau y cytunwyd arnynt.</p> <p>Bydd Cadair Casgliadau Digidol yn llunio adroddiad cynnydd manwl i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ym Medi a Mawrth bob blwyddyn yn adrodd ar gyflawniadau a datblygiadau.</p> <p>Cytunir ar dargedau os bydd y cais yn llwyddiannus.</p>
<p>5. Sicrhau bod y Llyfrgell yn prif ffrydio cynaliadwyedd yn eich cynllunio mewnol eich hun, gan ddefnyddio staff, adnoddau a chyfleusterau'n effeithiol ac effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau allweddol a chyflawni blaenoriaethau strategol.</p>	<p>Ymgymryd â rhaglen ailstrwythuro sefydliadol lawn a'i gweithredu, i sicrhau bod adnoddau'r Llyfrgell yn alinio'n effeithiol â'r ddarpariaeth, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer y gwaith hwn</p> <p>Ceisio cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad allanol trwy greu incwm a gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn a chyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer y gweithgareddau hyn.</p>	<p>Cwblhau'r rhaglen ailstrwythuro erbyn Rhagfyr 2014.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swm cyllid allanol a dderbyniwyd trwy greu incwm • Swm cyllid allanol a dderbyniwyd trwy weithgareddau codi arian y Llyfrgell • Mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon 2014 - 2019 yn cynnwys dangosyddion

	<p>Gweithredu Strategaeth Adeilad a Gwasanaethau. Sicrhau defnydd effeithlon o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gwblhau gwaith adfer a datblygu hanfodol yn ystod 2014-15.</p>	<p>perfformiad erbyn Medi 2014</p>
	<p>Cyflwyno cais i'r Cynllun Achredu Gwasanaeth Archifau i ennill statws achredu archifau llawn erbyn Mawrth 2015.</p>	

Atodiad 3

Dangosyddion Darparu Gwasanaeth Effeithiol

Dangosyddion Allanol				
Cyfeirnod	Cyfeirnod Llythyr Cylch Gorchwyl	Dangosydd	Ffynhonnell Data / Sylwadau	Targed 2014-15
01	3.2 1.2	Nifer yr ymwelwyr i'r Llyfrgell yn ystod y cyfnod hwn		87,000
02	3.1 1.2	Nifer yr ymwelwyr i wefannau'r Llyfrgell		800,000
03	3.1 1.2	Nifer y cyfranogwyr mewn gweithgareddau a gynhaliwyd yn y Llyfrgell (Drwm a mannau eraill)		12,000
04	3.1 1.2	Defnydd o ystafelloedd darllen		25,000
05	4.3 1.2	Asesiad meintiol o fodlonrwydd defnyddwyr: ffisegol	Yn seiliedig ar ymatebion i'r holiadur	95% o ymatebion yn nodi 'da' neu 'da iawn'
06	4.3 1.2	Asesiad meintiol o fodlonrwydd defnyddwyr : rhithiol		Mesur newydd ar gyfer 2014-15 i gyd-fynd â Strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli

07	3.3	Nifer y defnyddwyr wedi eu cofrestru â'r Llyfrgell: tocynnau darllenwyr		8,000
08	3.3 3.6	Nifer y defnyddwyr wedi eu cofrestru â'r Llyfrgell: gwasanaethau ar-lein yn unig		13,000
09	4.1	Nifer y digwyddiadau estyn allan		60
10	4.1 1.1 2.1	Nifer y digwyddiadau estyn allan yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf		Mesur newydd ar gyfer 2014-15 i gyd-fynd â Strategaeth Llyfrgelloedd sy'n Ysbrydoli
11	4.1 1.1	Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau estyn allan		Mesur newydd ar gyfer 2014-15 i gyd-fynd â Strategaeth Llyfrgelloedd sy'n Ysbrydoli
12	4.1 1.1 2.1 2.3	Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau estyn allan yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf		Mesur newydd ar gyfer 2014-15 i gyd-fynd â Strategaeth Llyfrgelloedd sy'n Ysbrydoli
13	1.1 2.2	Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau'r Llyfrgell		70
14	2.1 2.2	Canran y gwirfoddolwyr sy'n mynd yn eu blaenau i gael gwaith		35%
15	4.2	Nifer yr eitemau o'r casgliadau sy'n cael eu harddangos yn ffisegol (yn adeilad y Llyfrgell ac ar fenthyg)		550
16	1.3 3.4 3.6 4.2	Nifer y delweddau digidol newydd a grëwyd trwy raglen ddigido'r Llyfrgell		250,000

17	1.3 2.3 3.6	Nifer yr adnoddau dysgu digidol a grëwyd trwy'r Gwasanaeth Addysg ac sydd ar gael ar-lein	Yn seiliedig ar ymgynghori ag athrawon a swyddogion Hwb ac ar dreialu mewn ysgolion.	30
18	1.1 1.3 3.4 3.6	Nifer y teitlau e-adnoddau sydd ar gael i bobl Cymru gael mynediad iddynt oddi ar y safle		Mesur newydd ar gyfer 2014-15 i gyd-fynd â Strategaeth Llyfrgelloedd sy'n Ysbrydoli

Dangosyddion Mewnol/Dangosyddion Gweithredol

Cyfeirnod	Cyfeirnod Llythyr Cylch Gorchwyl	Dangosydd	Ffynhonnell Data / Sylwadau	Targed 2014-15
20	1.2	<p>Canran y deunyddiau printiedig newydd a dderbyniwyd trwy adnau cyfreithiol yn cael ei gatalogio ac ar gael i'r cyhoedd o fewn 2 wythnos</p> <p>Canran y deunyddiau printiedig newydd a brynwyd yn cael ei gatalogio ac ar gael i'r cyhoedd o fewn 2 fis.</p>	Data o Virtua LMS	<p>95% o fewn 2 wythnos</p> <p>90% o fewn 2 fis</p>
21	1.2	Cyfraniad y Llyfrgell at raglen gatalogio gyffredin llyfrgelloedd adnau cyfreithiol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon	Cyfrif cofnodion ymgeiswyr ar system Virtua	5,000 o gofnodion llyfryddol 1,500 o gofnodion (NACO)
22	1.2	Amser canolrifol prosesu ceisiadau am ddogfennau (darparu eitemau y gofynnwyd amdanynt gan ddarllenwyr ystafelloedd darllen)		45 munud
23	1.2	Amser a gymerwyd i ateb ymholiadau curadurol		95% o ymholiadau i'w hateb o fewn 10 diwrnod gwaith
24	3.4	Canran y casgliad mewn cyflwr sefydlog		Mesur newydd ar gyfer-

				2014-15 - bydd y canlyniadau'n creu gwaelodlin ar gyfer sefydlu targedau yn y dyfodol
25	3.4	Nifer yr oriau triniaeth yn ystod y cyfnod		3,641 o oriau
26	3.4	Nifer yr oriau triniaeth ataliol yn ystod y cyfnod		4,418 o oriau
27	3.4	Canran y casgliad a gedwir dan amodau amgylcheddol addas		Ar hyn o bryd cedwir 65% o gasgliadau dan amodau amgylcheddol addas. Mesur newydd ar gyfer-2014-15 - bydd y canlyniadau'n creu gwaelodlin ar gyfer sefydlu targedau yn y dyfodol.
29		Canran amser staff a dreulir mewn sesiynau hyfforddiant a datblygiad		2%
30		Bodlonrwydd â hyfforddiant		95% o ffurflenni gwerthuso a ddychwelwyd yn nodi Da neu Dda Iawn.
31	5.1	Swm cyllid allanol a dderbyniwyd trwy greu incwm		£420,000
32	5.1	Swm cyllid allanol a dderbyniwyd trwy weithgareddau codi arian y Llyfrgell		£550,000

33		Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod		98% o anfonebau i'w talu o fewn 30 diwrnod i'w derbyn
34		Gweithio tuag at leihau allyriadau carbon o adeiladau a gan drafnidiaeth o 25% erbyn Mawrth 2018.		Mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon 2014 – 2019 yn cynnwys perfformiad erbyn Medi 2014
35	1.1	Parhau i ddigido casgliad ITV i gefnogi'r gwasanaeth i'r cwmni a chynnal mynediad cyhoeddus at y catalog		Digido 735 o dapiau fideo a 140 o ganiau ffilm (er mwyn gallu ymateb i'r galw cynyddol i ddigido prosiectau eraill)